

## PWYLLGOR DIOGELU'R CYHOEDD

DYDD MAWRTH, 6 CHWEFROR 2018

Yn  
bressenol: Cynghorydd Jackie Parry(Cadeirydd)

Cynghorwyr Goddard, Hudson, Jacobsen, Caerhirfryn, Mackie,  
Robson a/ac Williams

### 17 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDENB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Murphy, Taylor a Wood

### 18 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

### 19 : COFNODION

Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd a 5 Rhagfyr 2017 a 9 Ionawr 2018 yn gofnod cywir, ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

### 20 : CANIATÁU CAIS AM OSOD SYSTEM CAMERÂU TELEDU CYLCH CYFYNG DEUOL MTC 33 MEWN CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU LLOGI PREIFAT A DRWYDDEDIR GAN GYNGOR CAERDYDD

Dywedwyd wrth yr Aelodau y derbyniwyd cais gan Alan Jones o Matrix Telematics am gymeradwyaeth i osod y system camerâu teledu cylch cyfyng deuol MTC 33 mewn Cerbydau Hacni a Cherbydau Llogi Preifat yng Nghaerdydd. Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad a gofynnwyd i'r Aelodau benderfynu ar y cais.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor nodi bod yr awdurdod wedi cymeradwyo nifer o systemau TCC i'w defnyddio mewn cerbydau yng Nghaerdydd. Mewn cyfarfod ar 7 Gorffennaf 2009, penderfynodd yr Aelodau roi awdurdod wedi'i ddirprwyo i'r Prif Swyddog Cynllunio Strategaethau a'r Amgylchedd a'r Rheolwr Gweithredol (Trwyddedu a Diogelu'r Cyhoedd) i gymeradwyo systemau TCC. Fodd bynnag, nid yw'r swyddi hyn yn bodoli mwyach yn yr awdurdod ac felly gofynnwyd i'r Aelodau i ystyried ymhellach ddirprwyo awdurdod i Bennaeth y Gwasanaeth Rheoliadol A Rennir a Rheolwr Gweithredol y Gwasanaethau Cymdogaeth i gymeradwyo systemau TCC i'w defnyddio mewn cerbydau cerbyd hacni a cherbydau llogi preifat yn y dyfodol.

Derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniad gan Alan Jones o Matrix Telematics a Colin Brody o Contact Radio, y cyflenwyr wedi'u cymeradwyo ar gyfer y system yn Ne Cymru. Rhoddwyd trosolwg i'r Aelodau o'r system TCC, ei fanylebau technegol a'i gydymffurfiaeth â deddfwriaeth Diogelu Data. Dangoswyd i'r Aelodau hefyd fideo o gerbydau oedd yn rhan o ddamweiniau ar y ffordd y mae'r system TCC wedi'i gosod ynddynt.

Trafododd y Pwyllgor rinweddau'r cais a cheision nhw eglurhad ar nifer o bwyntiau gan gynnwys rheoli a chael mynediad at hawliau i fideos a rhinweddau'r defnydd gorfodol o TCC ym mhob cerbyd hacni a llogi preifat.

PENDERFYNWYD –:

- (1) Cymeradwyo'r system camerâu teledu cylch cyfyng deuol MTC 33 i'w gosod mewn cerbydau hacni a cherbydau llogi preifat yng Nghaerdydd;
- (2) Y dirprwyir awdurdod i Bennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir a Rheolwr Gweithredol y Gwasanaethau Cymdogaeth i benderfynu ar geisiadau am systemau TCC yn y dyfodol i'w defnyddio mewn cerbydau hacni a cherbydau llogi preifat.

Daeth y cyfarfod i ben am Time Not Specified